



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Cod Ymarfer mewn perthynas â sicrhau  
llesiant: dogfen weithio

Cyhoeddwyd dan adran 145 o Ddeddf  
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  
(Cymru) 2014



## Cynnwys

Rhaglith	2
Rhagair	2
Cyd-destun a diben y cod hwn	2
Llesiant	3
Mesur llesiant	4
Safonau ansawdd i awdurdodau lleol	4
Gofynion mesur perfformiad	6

## Rhaglith

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn dan Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu'n unol â gofynion y cod hwn, oni fydd yn darparu fel arall, ac ystyried unrhyw ganllawiau a nodir ynddo. Mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi'u nodi yn atodlen 2 i Ddeddf 2014. Mynegir gofyniad fel "rhaid" neu "ni chaniateir". Mynegir canllawiau fel "dylai" neu "ni ddylai". Daw'r cod hwn i rym ar ddyddiad cychwyn y Ddeddf.

## Rhagair

Mae'r cod hwn yn ddogfen weithio ac ymgynghorir arni yn gynnar yn 2015. Diben y cod yw pennu gofynion perfformiad ar awdurdodau lleol mewn perthynas â llesiant. Mae'r cod hwn yn pennu safonau ansawdd, gofynion gwybodaeth a champau i'w cymryd mewn cysylltiad â'r rheini.

Mae'r cod hwn yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd goblygiadau i gyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, ac i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth yng Nghymru.

Mae'r cod ymarfer hwn yn cwmpasu:

- Llesiant
- Mesur llesiant
- Safonau Ansawdd i Awdurdodau Lleol
- Gofynion Mesur Perfformiad

## Cyd-destun a diben y cod hwn

Cafodd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 i ddod yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gael yn: [www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted)

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn creu system gyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Y prif newidiadau yw bod egwyddor gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth. Bydd y ffocws hwn ar lesiant, a mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalmwyr, yn gosod y sylfeini ar gyfer gwelliant ar draws y sector.

Mae Adran 5 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth. Mae'r Cod Ymarfer ar Swyddogaethau Cyffredinol a gyhoeddwyd dan Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pennu gofynion ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.

Mae Adran 8 y Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad statudol sy'n ymwneud â llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth. Mae'n rhaid i'r datganiad hwn nodi'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran llesiant a mesur canlyniadau drwy gyfeirio

at y cyflawniad sydd i'w asesu o'r canlyniadau hynny. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r datganiad o ganlyniadau llesiant a'i osod gerbron y Cynulliad wrth gychwyn y Ddeddf yn 2016.

Datblygwyd y cod hwn drwy ymgynghori â phartneriaid a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Dylid darllen y Cod Ymarfer ochr yn ochr â'r holl Godau Ymarfer a gyhoeddir dan Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru).

## Llesiant

Mae llesiant yn gysyniad eang sy'n ymwneud â phob elfen ym mywyd person ac fe'i diffinnir mewn perthynas â pherson yn Adran 2 o'r Ddeddf.

Mae angen i awdurdodau lleol ddeall y canlyniadau llesiant y mae pobl yn dymuno eu cael. Y datganiadau canlyniad, a nodir yn y Cod Ymarfer ar Swyddogaethau Cyffredinol a gyhoeddwyd dan adran 145 o'r Ddeddf, yw'r prif feysydd y gall gofal a chymorth wneud gwahaniaeth i wella canlyniadau llesiant i bobl, sef:

- a. Llesiant (**Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael i mi ac rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf, pryd mae ei angen, yn y ffordd yr wyf ei eisiau**);
- b. Iechyd meddwl a chorfforol a llesiant emosiynol (**Rwy'n hapus ac rwy'n iach**);
- c. Diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod (**Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod**);
- d. Addysg, hyfforddiant a hamdden (**Rwy'n gallu dysgu a datblygu i fy mhotensial llawn ac rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi**);
- e. Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol (**Rwy'n perthyn ac mae gennyf berthnasoedd diogel ac iach**);
- f. Cyfraniad i'r gymdeithas (**Gallaf gymryd rhan a chyfranogi ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn gymdeithas**);
- g. Sicrhau hawliau a hawlogaethau (**Mae fy hawliau'n cael eu parchu, mae gennyf lais a rheolaeth, rwy'n cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar fy mywyd, mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried, gallaf siarad dros fy hun neu mae gennyf rywun sy'n gallu gwneud hynny ar fy rhan ac rwy'n cael gofal drwy'r iaith Gymraeg os oes angen hynny arnaf**);
- h. Llesiant cymdeithasol ac economaidd (**Rwy'n cael cefnogaeth i weithio, mae gennyf fywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl yr wyf yn eu dewis, nid wyf yn byw mewn tloidi ac rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol**);
- i. Addasrwydd lle byw (**Mae gennyf le addas i fyw sy'n diwallu fy anghenion**).

## Mesur Llesiant

Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn dangos a yw llesiant yn cael ei wireddu. Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i'w weld yn:

[www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy)

Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn adnodd allweddol i olrhain cynnydd yn lleol ac yn genedlaethol tuag at drosglwyddo gofal a gwasanaethau cymorth. Bydd y fframwaith hwn yn mesur faint o wahaniaeth y mae gofal a chymorth yn ei gael ar fywydau pobl.

Bydd canlyniadau llesiant personol pobl yn glynu at y datganiadau canlyniad, a bennir yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol, a byddant yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n sicrhau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru.

Bydd fframwaith mesur perfformiad ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yn ategu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ac yn dangos y cyfraniad y mae'r gwasanaethau'n ei wneud i gefnogi pobl i sicrhau'r llesiant a nodir yn y fframwaith canlyniadau.

Diben y fframwaith mesur perfformiad yw:

- Rhoi tystiolaeth genedlaethol, gyson a chadarn mewn perthynas â darparu canlyniadau llesiant, a fydd yn dangos cyfrifoldeb ac atebolrwydd o ran cyflawni'n lleol i Weinidogion Cymru;
- Canolbwyntio ar ganlyniadau a gyrru ymlaen y newid i ddarparu gwasanaethau i ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant i bobl;
- Galluogi pobl i ddeall safon y gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal a'u cymorth eu hunain;
- Cefnogi pobl sy'n darparu gofal a chymorth i sicrhau canlyniadau llesiant i bobl, a defnyddio'r dystiolaeth hon i sbarduno gwelliant mewn gwasanaeth a dysgu a gwella, gan gynnwys sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn diwallu anghenion y boblogaeth;
- Galluogi pobl sy'n darparu gofal a chymorth i gymharu a meincodi eu perfformiad yn erbyn eraill; a,
- Bod yn sail i'r drefn reoleiddio ac arolygu, a darparu gwybodaeth ar ei chyfer.

Bydd y fframwaith mesur perfformiad yn cynnwys safonau ansawdd a mesurau sy'n dangos gweithgareddau yn erbyn safonau ansawdd.

## Safonau ansawdd i awdurdodau lleol

Mae safonau ansawdd i awdurdodau lleol yn disgrifio'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau llesiant. Byddant yn cefnogi gwella a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gyflawni'r safonau ansawdd a nodir yn y cod hwn mewn perthynas â sicrhau datganiadau canlyniad llesiant.

- 1. Bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddiffinio a sicrhau'r canlyniadau llesiant personol y maent yn dymuno eu cyflawni a byddant yn sicrhau eu bod yn mesur effaith y gofal a'r cymorth ar fywydau pobl ac o safbwynt cyflawni canlyniadau personol.**

Er mwyn sicrhau hyn, bydd yn **rhaid** i awdurdodau lleol:

- a. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth eglur a dealladwy i helpu pobl i reoli eu llesiant a gwneud penderfyniadau cytbwys.
  - b. Gweithio gyda phobl, fel partneriaid, i osgoi'r angen am ofal a chymorth, ac â phartneriaid eraill i drefnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n atal neu'n gohirio'r angen i bobl gael gofal a chymorth.
  - c. Gweithio gyda phobl i gynnal asesiad o anghenion personol mewn da bryd.
  - d. Sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol ac yn trin pobl gydag urddas a pharch ac yn hyrwyddo hawliau dynol pobl.
  - e. Sicrhau bod gan bobl reolaeth dros y ffordd y mae eu gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu (neu fod rhywun arall yn gallu gwneud hynny ar eu rhan, neu gyda nhw).
  - f. Sicrhau bod gan bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gyswllt enwebedig sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid fel bod modd pontio'n ddi-dor rhwng gofal a chymorth ar draws gwasanaethau.
  - g. Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys darparwyr i hwyluso ac arwain cynllun amlddisgyblaethol ar gyfer gofal a chymorth.
- 2. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth a phartneriaid perthnasol i hybu, diogelu a gwella iechyd meddwl a chorfforol a llesiant emosiynol pobl.**

Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn **rhaid** i awdurdodau lleol:

- a. Datblygu ar y cyd gyda phartneriaid a phobl ffyrdd o hybu a chefnogi pobl i fyw mewn ffordd iach.
  - b. Annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, bod yn gorfforol egniol ac elwa ar ofal a chymorth rhagweithiol, ataliol.
- 3. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol atal, amddiffyn a diogelu pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth rhag niwed ac esgeulustod neu unrhyw fathau eraill o niwed.**

### **Diffinnir camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn **rhaid** i awdurdodau lleol:

- a. Ymateb yn effeithiol i newid mewn amgylchiadau a mynd ati'n gyson i adolygu'r canlyniadau personol a gyflawnir.
- b. Darparu gofal a chymorth i bobl y mae angen eu hamddiffyn rhag perygl a niwed.
- c. Datblygu trefniadau addas i bobl sy'n rhoi eu diogelwch hwy neu eraill mewn perygl er mwyn atal niwed neu esgeulustod.
- d. Rheoli risg mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl i deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau.
- e. Cefnogi pobl i gymryd risgiau a reolir sy'n berthnasol, sy'n gyson â'u hoedran, aeddfedrwydd a dealltwriaeth.

- f. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac esgeulustod i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

**4. Bydd awdurdodau lleol yn annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddysgu a datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.**

Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Cefnogi pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt er mwyn sicrhau eu canlyniadau personol.
- Annog pobl i fod yn aelodau gweithgar o'u cymunedau, a helpu ei gilydd i leihau unigrwydd cymdeithasol.

**5. Bydd awdurdodau lleol yn cefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach, mewn modd diogel.**

Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Cefnogi pobl i gynnal y perthnasoedd sy'n bwysig iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu.
- Helpu pobl i adnabod perthnasoedd anniogel a'u diogelu rhag niwed ac esgeulustod.
- Ystyried barn teuluoedd pobl, eu gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu eu hanghenion o ran gofal a chymorth, os yw hynny'n briodol.
- Darparu lleoliadau gofal a chymorth sefydlog a chyson i bobl.

**6. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth a'u cefnogi i wella eu llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion.**

Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Cefnogi pobl i gymryd rhan fel dinasyddion gweithgar yn economaidd a chymdeithasol.
- Cefnogi pobl i gael mynediad at gyngor ariannol a chymorth gyda budd-daliadau a grantiau.
- Darparu mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'r fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, 'Mwy na Geiriau', neu mewn ieithoedd eraill o'u dewis lle bo angen.
- Cefnogi pobl i gael lle i fyw sy'n diwallu eu hanghenion ac yn hwyluso byw'n annibynnol.

## Gofynion mesur perfformiad

Wrth asesu a yw'r safonau ansawdd wedi'u cyflawni, bydd yn ofynnol cael mathau gwahanol o wybodaeth am berfformiad.

Bydd gwybodaeth am berfformiad yn:

- Ymwneud â diben; hybu canlyniadau llesiant a'r hyn sy'n bwysig i bobl;
- Amrywio dros amser;
- Cael ei defnyddio gan y sector i ddeall y ddarpariaeth o wasanaethau ac i ddysgu a gwella;
- Cael ei defnyddio gan staff rheng flaen ac yn rhan annatod o'u harferion.

Bydd mesur perfformiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn dangos tystiolaeth o weithgareddau fydd yn sicrhau safonau ansawdd a llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Bydd mesur perfformiad y pellter a deithiwyd yn cronni cynnydd pobl tuag at ganlyniadau llesiant personol y cytunwyd arnynt. **Dylai** awdurdodau lleol gynnal trafodaethau â phobl i bennu canlyniadau llesiant personol a'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r rhain. Wrth asesu effaith gofal a chymorth ar fywydau pobl, mae'n rhaid i awdurdodau lleol fesur y pellter a deithiwyd o ran sicrhau canlyniadau personol unigolyn. **Dylai** awdurdodau lleol ddefnyddio'r mesurau hyn fel adnodd i sicrhau bod cyd-gynhyrchu'n rhan annatod o arferion bob dydd.

Bydd mesur perfformiad boddhad yn rhoi manylion am brofiad pobl o ofal a chymorth. Mae'r mesurau hyn yn galluogi gwasanaethau i reoli a gwella. Gellir casglu'r mesurau hyn drwy ddefnyddio nifer o ffyrdd gan gynnwys arolwg. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gasglu'r mesurau boddhad a nodir yn y cod hwn. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i ddeall y rhesymau dros sgoriau boddhad isel ac uchel, o ran unrhyw un o'r mesurau boddhad goddrychol. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddeall beth allant ei wneud yn wahanol a sut y gallant ddysgu a gwella.

**Dylai** awdurdodau lleol ystyried unrhyw gyngor perthnasol a'r adroddiad arolygu mwyaf diweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddysgu a gwella.

**Dylai** awdurdodau lleol ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael am effeithiolrwydd gofal a chymorth. Gall hyn gynnwys straeon pobl sy'n rhoi manylion am y profiad y tu ôl i'w gofal a'u cymorth. Bydd straeon pobl yn rhoi adroddiad mwy cyfoethog i gyd-fynd â ffynhonnell tystiolaeth sy'n rhoi manylion am yr hyn sy'n bwysig i'r person hwnnw. Gellir eu cyfuno i weld a yw'r canlyniadau i unigolion wedi'u cyflawni. Gall hyn hybu rhannu arferion da a datblygu dealltwriaeth o welliant perfformiad lleol.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ddarparu'r mesurau perfformiad isod ar gyfer Llywodraeth Cymru yn flynyddol o fis Mai 2017 ymlaen. Mae'n rhaid i'r data blynyddol adlewyrchu gwerth blwyddyn ariannol o ddata (bydd y flwyddyn gyntaf yn rhoi manylion blwyddyn ariannol 2016-17), mewn perthynas â phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae'r mesurau wedi cael eu mapio i'r safonau, drwy gyfeirio at y perfformiad sydd i'w asesu wrth gyflawni'r safonau ansawdd.

1. Canran y bobl sydd wedi cael gofal a chymorth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg (neu ddewis iaith) **[Safon 6]**
2. Canran y bobl sy'n dweud iddynt gael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd angen hynny arnynt **[Safon 1]**
3. Canran y bobl sy'n dweud iddynt gael eu trin â pharch ac urddas **[Safon 1]**
4. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt **[Safon 4]**
5. Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety'n addas i'w hanghenion **[Safon 6]**
6. Canran y bobl (10 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel **[Safon 3]**
7. Canran y bobl (16-24 oed) sy'n dweud iddynt gael cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolion **[Safon 6]**
8. Canran y bobl sydd â chynllun gofal a chymorth sydd â gwybodaeth ysgrifenedig am eu prif ymarferydd a enwir sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r gwaith o gynllunio ac adolygu gofal a chymorth **[Safon 1]**



9. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ran mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a chymorth **[Safon 1]**

10. Canran y bobl sy'n fodlon â'r gofal a chymorth a gawsant **[Safon 1]**

**Hefyd, bydd angen darparu'r wybodaeth isod am berfformiad ar gyfer yr holl ofalwyr sydd angen cymorth:**

11. Canran y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau yn eu rôl fel gofalwyr **[Safon 5]**

12. Canran y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ran yn y gwaith o gynllunio cynllun gofal a chymorth i'r person y maent yn gofalu amdano **[Safon 5]**

**Hefyd, bydd angen darparu'r wybodaeth isod am berfformiad ar gyfer yr holl oedolion (18 oed a throsodd) sydd angen gofal a chymorth:**

13. Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle rheolwyd y risg **[Safon 3]**

14. Canran y derbyniadau heb eu trefnu i ysbyty ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth (65 oed a throsodd) **[Safon 3]**

15. Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer pobl hŷn (75 oed a throsodd) am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth **[Safon 2]**

16. Canran yr oedolion ar ddiwedd y cyfnod ail-alluogi sydd

a. â phecyn llai o ofal a chymorth **[Safon 2]**

b. â phecyn parhaol ar ddiwedd y cyfnod a chwe mis yn ddiweddarach **[Safon 2]**

17. Canran yr oedolion nad ydynt bellach yn derbyn pecyn gofal a chymorth i fyw'n annibynnol **[Safon 2]**

18. Cyfradd yr oedolion sy'n cael cymorth i fyw yn eu cartref eu hunain a'u cymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth **[Safon 2]**

19. Faint o amser ar gyfartaledd y bydd pobl hŷn (65 oed a throsodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth, fesul awdurdod lleol **[Safon 2]**

**Hefyd, bydd angen darparu'r wybodaeth isod am berfformiad ar gyfer yr holl blant sydd angen gofal a chymorth:**

20. Canran y plant sy'n derbyn gofal (10 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn mwynhau'r ysgol, gweithgareddau hamdden neu hyfforddiant **[Safon 4]**

21. Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CPR)

a. oherwydd yr un amgylchiadau **[Safon 3]**

b. oherwydd newid mewn amgylchiadau **[Safon 3]**

22. Faint o amser ar gyfartaledd mae plant ar y CPR **[Safon 3]**

23. Canran y plant sy'n cael eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis o dderbyn gofal **[Safon 2]**

24. Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu **[Safon 2]**

25. Canran y plant sy'n cyflawni targedau addysgol a bennir gan eu hathro (bydd hyn yn cynnwys Dangosyddion Cyfnod Allweddol/Pynciau Craidd ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny fel sy'n briodol) **[Safon 4]**
26. Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n profi (2) neu ragor o achosion o symud lleoliadau addysgol yn y flwyddyn **[Safon 4]**
27. Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn **[Safon 5]**
28. Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth barhaol am 3 mis, 13 mis neu 24 mis ar ôl gadael gofal **[Safon 6]**
29. Canran y bobl ifanc ddigartref (16-21 oed) sy'n cael llety addas **[Safon 6]**
30. Canran y plant sy'n cael cymorth i aros gyda'u teulu **[Safon 5]**
31. Canran y rhieni a oedd yn teimlo bod ganddynt ran yn y penderfyniadau a wneir am ofal a chymorth eu plentyn **[Safon 6]**

Er mwyn sicrhau bod y mesurau perfformiad yn gymaradwy ac yn gyson, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gydymffurfio â chanllawiau technegol o ran y mesurau perfformiad a nodir. Bydd hyn yn cael ei ddatgan pan gyhoeddir y cod ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn 2015.